

Asesiad Effaith Cydraddoldeb – Ffurflen Sgrinio (A)

At ddibenion y ddogfen hon, gall y gair 'cynnig' gyfeirio at unrhyw bolisiâu, strategaethau, adolygiadau, prosiectau, cynlluniau, ac mae'n cynnwys dogfennau newydd, rhai wedi'u hadolygu neu rai wedi'u diwygio'n sylweddol.

Enw'r Polisi/Gweithdrefn/Prosiect/Darn o offer a gynigir	
Gweithdrefnau Iechyd a Ffitrwydd	
Bwrdd/Adran/Tîm	
Yr Adran Adnoddau Dynol	
Dyddiad sgrinio	Pwy yw'r prif fuddiolwyr/defnyddwyr?
17eg Ebrill 2014	Holl aelodau staff GTAGC
Nodau, amcanion a chanlyniadau	
Nod y gweithdrefnau yw sicrhau dull cytunedig a strwythuredig tuag at iechyd a ffitrwydd corfforol ar gyfer yr holl weithlu. Mae'n ymdrin yn benodol â goblygiadau cytundebol diffoddwyr tân gweithredol o ran cynnal lefelau ffitrwydd disgwylidig ar gyfer eu rôl.	

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ein cynorthwyo i hybu cyfle cyfartal a gwasanaethau, yn ogystal â rhwystro gwahaniaethu anghyfreithlon. Arf yw hwn a fydd o gymorth ichi pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau allweddol, datblygu prosiect, ysgrifennu neu ddiweddarau polisi/gweithdrefn, neu ddechrau menter. Bydd yr asesiad hefyd yn fodd i wasanaethu fel awdit o'r penderfyniadau y byddwch yn eu cynnig.

Mae asesu ar gyfer effaith/risg yn ofyniad cyfreithiol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, mae'n rhaid inni ystyried sut y bydd y penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar bobl a'u nodweddion gwarchoddedig, sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chredoau, rhyw neu ogwydd rhywiol.

Sgrinio ar gyfer Effaith

Ystyriwch bob un o'r Nodweddion Gwarchoddedig isod, a nodwch a oes risg effaith **isel**, **canolig** ynteu **uchel** i'ch cynnig.

Lefel y risg	
Isel	Yr effaith lleiaf posib ar y nodweddion gwarchoddedig. Effaith niweidiol yn annhebygol.
Canolig	<p>Risg isel neu ganolig y gallai hyn effeithio ar nodwedd warchoddedig. Mesurau ar waith i sicrhau ba fydd unrhyw effaith anffafriol.</p> <p>Effaith negyddol sylweddol ar y grwpiau nodweddion gwarchoddedig. Os oes rhesymau lliniarol, megis goblygiadau deddfwriaethol (e.e.; oed trwydded gyrru), gofynion swydd (e.e.; prawf llygaid ar gyfer recriwtiaid), neu feini prawf prosiectau (e.e.; gyrwyr ifanc), dylid eu cynnwys yn yr aran berthnasol. Nodwch os gwelwch yn dda na ellir defnyddio cost yn unig fel rheswm lliniarol.</p>
Uchel	<p>Effaith negyddol fawr ar y grŵp nodweddion gwarchoddedig o ran y gymuned, y staff neu brosesau busnes. Byddai'n arwain at beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth, ac felly gallai olygu risg i'r sefydliad. Os gwelir y lefel hon, rhaid llenwi Ffurflen Asesiad Llawn (B).</p> <p>Ond os yw'r effaith yn hyrwyddo cyfle cyfartal a gwasanaethau i grŵp sydd wedi ei dangynrychioli (megis diwrnodau mynediad i fenywod, neu ymgyrch diogelwch tân wedi ei hanelu at ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl), gallai hyn fod yn effaith gadarnhaol, a chaniateir hyn yn ôl y gyfraith.</p>
Arferion Da / Ffactorau Lliniarol	Os bydd y weithdrefn, y prosiect, y cynllun ayyb yn darparu gwelliannau – er enghraifft, pan fo'r geiriad yn cael ei wneud yn fwy cynhwysol, cofiwch roi hyn yn yr adran Arferion Da. Hefyd, os oes ffactorau lliniarol (fel y nodir yn y Canllawiau), cofiwch eu nodi yma.

Nodweddion Gwarchoddedig	Lefel y risg Uchel, Canolig, Isel	Eglurwch yn fras beth yw eich asesiad os gwelwch yn dda	Arferion Da a/neu Ffactorau Lliniarol
<p>Oedran (iau, hŷn neu grŵp oedran arbennig)</p>	<p>Canolig</p>	<p>Mae safonau ffitrwydd yn un o anghenion rôl y diffoddwr tân Gweithredol. Mae'n bosib y gall effeithio ar staff gweithredol hŷn o ganlyniad i ddirywiad mewn ffitrwydd oherwydd newidiadau biolegol sydd yn digwydd gydag oed. Fodd bynnag, gelir gwella lefelau ffitrwydd corfforol drwy ymarfer y corff yn rheolaidd. Hefyd, mae'r safonau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac maent yn nodi lleiafswm y lefel ffitrwydd sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod dyletswyddau diffodd tanau'n cael eu cyflawni'n effeithiol ynghyd ag iechyd a lles staff yn ogystal â'r cyhoedd.</p> <p>Gan fod hwn yn ofyniad deddfwriaethol mae'r effaith yn cael ei liniaru.</p> <p>Ar gyfer aelodau staff eraill, fe fydd y newidiadau a anogir er mwyn byw bywyd iach yn briodol ar gyfer grwpiau oedran amrywiol.</p>	<p>Gellir dod o hyd i wybodaeth mewn perthynas â'r cyfiawnhad gwyddonol dros y safonau ffitrwydd yma: http://.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf</p> <p>Cydweithio gyda Phrifysgol Glyndŵr. Fe fydd y myfyrwyr a noddir gan GTAGC yn gweithredu rhaglen ymchwil sydd wedi ei dylunio i gwrdd â nodau ac amcanion GTAGC. Mae'n hanfodol bod iechyd a ffitrwydd personél gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ei feintoli fel y gellir rhoi ymyraethau penodol ar waith os oes angen.</p> <p>At hyn byddwn yn cwblhau dadansoddiadau carfan a'u cymharu gyda lefelau iechyd a ffitrwydd personél gweithredol GTAGC a/neu ar draws y tri Gwasanaeth Tân yng Nghymru (lle bo hynny'n addas).</p>

<p>Anabledd (corfforol, synhwyrdd, iechyd meddwl, salwch tymor hir, dirgel)</p>	<p>Isel</p>	<p>Mae profion ac asesiadau ffitrwydd yn adlewyrchu'r gweithgareddau diffodd tanau, ac felly maent yn ofynion penodol ar gyfer y rôl.</p> <p>Mae'r paragraffau wedi eu cadw mor fyr â phosib er mwyn helpu pobl â dyslecsia, ac mae'n eglur bod cymorth pellach ar gael os oes gan unrhyw un gwestiynau.</p> <p>I gydnabod y bydd rhai aelodau staff yn dewis rhannu gwybodaeth breifat yn ystod y cyfweiliadau ffitrwydd (statws HIV, triniaeth cancr, dyslecsia ayb), mae'r ddogfen yn ei gwneud hi'n amlwg bod staff Iechyd Galwedigaethol yn gweithio i lefel cyfrinachedd uchel iawn.</p> <p>Hefyd, mae hyblygrwydd o ran asesiadau a chyfweiliadau ffitrwydd i ystyried oedi neu ohirio o ganlyniad i iechyd er enghraifft, oedi yn dilyn chwistrelliadau inswlin)</p>	<p>Gellir dod o hyd i wybodaeth mewn perthynas â'r cyfiawnhad gwyddonol dros y safonau ffitrwydd yma: http://.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf</p> <p>Bydd addasiadau/ ystyriaethau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo hynny'n bosib/addas.</p> <p>Canllawiau Anabledd ac Adleoli GTAGC: <i>'Cydnabyddir y gall sicrhau cyfle cyfartal i bobl anabl olygu cyflwyno newidiadau i amgylcheddau gwaith neu drefniadau gwaith eraill'</i>.</p>
<p>Ailbennu Rhywedd (rhywun sydd mewn stad o</p>	<p>Canolig</p>	<p>Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn bosib y gall unigolion</p>	<p>Os bydd effaith andwyol, byddwn yn ceisio cyngor gan weithwyr Iechyd Galwedigaethol.</p>

drawsnewid o un rhyw i'r llall)		<p>sydd ar fin ail-bennu eu rhyw ddioddef effeithiau andwyol i'w iechyd.</p> <p>Mae'r polisi'n glir mewn perthynas â chyfleustodau preifat, pa ddillad y dylid eu gwisgo, a chyfrinachedd. Hefyd, mae yna ddarpariaeth ar gyfer tylino chwaraeon gan wasanaeth allanol ar gyfer unrhyw aelod o staff sydd wrthi'n trawsnewid eu rhyw.</p>	<p>Bydd Ymgynghorydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth yn darparu gwybodaeth ychwanegol i reolwyr llinell pan fydd angen.</p> <p>Gweler yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb – Asesiad Llawn B</p>
<p>Priodas/Partneriaeth Sifil (cyplau priod yn ogystal â chyplau o'r un rhyw)</p>	Isel	<p>Mae'r ddogfen yn ymwneud â gofynion ffitrwydd staff Gweithredol a hybu byw bywydau iach ymhlith staff; felly mae'r effaith ar statws priodasol yr unigolyn yn isel.</p>	
<p>Beichiogrwydd a Mamolaeth (Beichiogrwydd, cyfnod mamolaeth, bwydo o'r fron)</p>	Isel	<p>Nid oes gofyn i ddiffoddwagedd tân beichiog neu rai ar gyfnod famolaeth gwblhau prawf ffitrwydd hyd nes iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith.</p>	<p>Gweithdrefnau a Pholisi Mamolaeth, Tadolaeth a Mabwysiadau.</p> <p>Mae merched beichiog yn cael eu hepgor o ddyletswyddau gweithredol am resymau iechyd a diogelwch ac nid oes disgwyl iddynt gwblhau asesiadau ffitrwydd hanfodol. Mae cefnogaeth ar gael ar ôl iddynt ddychwelyd yn ôl i ddyletswyddau gweithredol llawn os ydynt yn bron fwydo. Fodd bynnag, yn dilyn asesiad risg gallant gymryd rhan mewn hyfforddiant a digwyddiadau eraill yn y gweithle.</p>

<p>Hil (Tarddiad Ethnig, cenedligrwydd, lliw, gan gynnwys sipsiwn a theithwyr)</p>	<p>Isel</p>	<p>Mae profion ffitrwydd rheolaidd penodol i'r rôl ar gyfer staff Gweithredol waeth beth fo'u tarddiad ethnig.</p>	<p>Gweithdrefnau a Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</p> <p>Yn unol ag ymrwymiad y Gwasanaeth i wella rydym yn cydnabod bod gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig yr hawl i dderbyn gwasanaeth o'r un safon. Rydym yn cydnabod ac wedi ymrwymo i gydraddoldeb i'n gweithlu ac wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn</p>
<p>Crefydd/Credoau (Cristion, Mwslimaidd, Hindŵaidd, Iddewig, Bwdhaidd)</p>	<p>Isel</p>	<p>Mae profion ffitrwydd rheolaidd penodol i'r rôl ar gyfer staff Gweithredol waeth beth fo'u crefydd neu gred.</p>	<p>Gweithdrefnau a Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn cymryd safiad sensitif a rhagweithiol tuag at grefydd a chred. Rydym yn anelu at alluogi pobl i gyfranogi'n llawn a chydadd yn ein gwaith gweithdrefnol waeth beth fo'u crefydd neu gred.</p> <p>Deallir y gellir bod rhesymau crefyddol gan rai aelodau staff gweithredol dros beidio â chael tyllino'u corff gan rywun o wahanol ryw. Ac o'r herwydd byddwn yn gofyn i rywun o'r un rhyw ddarparu'r gwasanaeth hwn.</p>
<p>Rhyw (Menyw, Dyn)</p>	<p>Canolig</p>	<p>Mae safonau ffitrwydd yn un o anghenion rôl y diffoddwr tân Gweithredol, felly mae'n bosib y bydd hyn yn effeithio ar aelodau staff Gweithredol</p>	<p>Gellir dod o hyd i wybodaeth mewn perthynas â'r cyfiawnhad gwyddonol dros y safonau ffitrwydd yma: http://.firefitsteeringgroup.co.uk/firefitreport.pdf</p>

		<p>benywaidd oherwydd y gwahaniaethau biolegol a ffisiolegol sydd yn bodoli rhwng menywod a gwrywod.</p> <p>Gan fod hwn yn ofyniad deddfwriaethol mae'r effaith yn cael ei liniaru.</p>	<p>Mae cyngor ffitrwydd yn cael ei roi yn ystod adolygiadau iechyd a ffitrwydd ynglŷn â sut i gadw'n heini mewn perthynas â'r gofynion person penodol.</p> <p>Mae'n bosib na fydd person o un rhyw yn gyfforddus wrth gael tylino'u corff gan rywun o'r rhyw arall, ac felly os oes angen byddwn yn darparu ymarferwr o'r un rhyw.</p> <p>Gweler yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb – Asesiad Llawn B</p>
<p>Gogwydd Rhywiol (Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol)</p>	Isel	<p>Nid oes angen gwybodaeth mewn perthynas â thueddfryd rhywiol yn ystod y broses ffitrwydd ac iechyd.</p>	<p>Bydd addasiadau/ ystyriaethau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo hynny'n bosib/addas</p>
<p>Iaith (Cymraeg eu hiaith, ieithoedd lleiafrifol ethnig, Braille, iaith arwyddion)</p>	Isel		

--	--	--	--

Os gwelir risg uchel i unrhyw nodwedd warchoddedig, bydd angen Asesiad Llawn (Ffurflen B). Os canolig yw'r risg, ond nad oes unrhyw Ffactorau Lliniarol, mae angen Asesiad Llawn hefyd, felly siaradwch gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb.

Mae'n rhaid i'r ffurflen hon gael ei llofnodi gan y sawl a ofynnodd ichi ei llenwi (chi eich hun, eich rheolwr llinell, arweinydd y prosiect ayyb), a chadwch gopi gyda'r ddogfen berthnasol.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i Asesiadau Effaith Cydraddoldeb gael eu cyhoeddi, felly caiff hon ei huwchlwytho i'r adran Asesiadau Effaith ar *Gydraddoldeb* ar y fewnrwyd, ac mae'n bosibl y bydd ar gael ar ein gwefan hefyd.

<p>Llofnod y sawl sy'n sgrinio:</p> <p>Llofnod:</p> <p>Enw: Chelsey Hughes Dyddiad:24ain Mawrth 2014</p>	<p>Llofnod y sawl sy'n awdurdodi:</p> <p>Llofnod:</p> <p>Enw: Llinos Gutierrez-Jones Dyddiad:24ain Mawrth 2014</p>
--	--